

# Ffeithlen

## Uwchlwytho tystiolaeth o'ch cyfrif banc (Unigolion Creadigol Proffesiynol)

### Cyflwyniad

Rhydd y ddogfen hon wybodaeth ychwanegol i gynorthwyo unigolion creadigol proffesiynol o ran cyflwyno'r dystiolaeth ofynnol am eich cyfrif banc.

Rhaid ichi gyflwyno prawf bod gennych gyfrif banc personol yn eich enw cyfreithlon, sy'n cyd-fynd gyda'r enw ar eich cais. Nodwch mai ond tystiolaeth sydd yn llai na 2 mlwydd oed o'r dyddiad yr ydych yn ymgeisio gallwn ni dderbyn.

Ni allwn dderbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sy'n gweithio ar system cael llyfr pas yn unig.

Cymerwn y cyfrifoldeb o ddsbarthu arian y cyhoedd o ddifri. Mae gwirio gwybodaeth banc yn fodd inni gael gwybod a ydych yn gymwys i ymgeisio (i gael rhagor o wybodaeth, gweler ein dogfen [Cychwyn Arni](#)) ac mai chi, derbynnydd y grant, a fydd yn defnyddio a rheoli arian y grant.

### Am beth yr ydym yn chwilio?

Cofiwch ein bod yn edrych i weld tystiolaeth o **rif y cyfrif**, **còd didoli** a bod y **cyfrif yn eich enw cyfreithlon**. Fe fydd angen i chi ddarparu'r dystiolaeth yma ar **gyfathrebiad swyddogol o'r banc** (ni allwn dderbyn manylion banc a deipiasoch eich hun).

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r mathau o ddogfennau y gellid eu darparu i ddiwallu'r gofyniad hwn:

- Ffoto o'ch cerdyn banc yn eich enw cyfreithlon sy'n dangos manylion eich cyfrif
- Mantolen fanc diweddar yn eich enw cyfreithlon sy'n dangos manylion eich cyfrif
- Ciplun sgrin o'ch cyfrif bancio ar-lein sy'n dangos eich enw cyfreithlon a manylion eich cyfrif

Mae'n bosib bydd angen i chi ddarparu mwy nag un ddogfen er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ofynnol yn gysylltiedig â manylion y cyfrif.

Os na wyddoch a yw'ch gwybodaeth yn bodloni'r gofyniad, e-bostiwch [buddsoddiacariannu@celf.cymru](mailto:buddsoddiacariannu@celf.cymru) gyda'r dystiolaeth fel y gallwn eich cynghori.

Os llwydda eich cais, gofynnwn ichi ddarparu rhagor o fanylion am eich cyfrif. Ni allwn ryddhau unrhyw daliadau nes inni gael a gwirio'r wybodaeth hon. Cymerir unrhyw ddiffyg

cysondeb o ddifri ac archwiliwn y mater.

Mae'n rhaid ichi gyflwyno'r wybodaeth hon am eich cyfrif banc. Ni fyddwn yn gallu derbyn eich cais hebdi.

<sup>1</sup> Os mae cyfeiriad y fantolen fanc ac un y ffurflen gais yn wahanol, esboniwch pam.

*Y fersiwn hon: Awst 2018*

---